Adroddiad ar

Ysgol Gynradd Rhiwlas

Rhiwlas
Bangor
Gwynedd
LL57 4EH

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Rhiwlas

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Rhiwlas |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 34 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 27 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 17.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 40.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 29.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 03/09/2012 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 17/10/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 03/02/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: [Fy Ysgol Leol (gov.wales)]

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Rhiwlas yn gymuned gynnes a chefnogol lle mae’r staff yn cynllunio’n effeithiol i ddarparu cwricwlwm eang sy’n sicrhau profiadau dysgu ystyrlon i’r disgyblion. Mae’r ddarpariaeth yn galluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae perthynas waith gadarn rhwng y staff a’r disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd sy’n meithrin hyder ac annibyniaeth y disgyblion wrth ddysgu.

Mae’r staff yn hyrwyddo’r Gymraeg yn rhagweithiol. Maent yn fodelau iaith cryf ac yn annog disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg yn hyderus mewn sefyllfaoedd amrywiol, sy’n arwain at gynnydd amlwg yn eu rhuglder.

Mae’r ysgol yn defnyddio’r ardaloedd allanol yn effeithiol i wella profiadau dysgu’r disgyblion. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau difyr ac ysgogol sy’n cefnogi datblygiad llythrennedd, rhifedd a medrau digidol a cherddorol disgyblion yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw’r lefel her a ddarperir bob amser yn ymateb i anghenion y disgyblion.

Mae’r ysgol yn rhoi blaenoriaeth i les disgyblion, gan sicrhau amgylchedd dysgu diogel a chefnogol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad bron bob disgybl, sy’n dangos parch a chwrteisi i’w gilydd ac oedolion wrth weithio o fewn eu tasgau dysgu ac wrth gyd-chwarae. Fodd bynnag, mae presenoldeb gormod o ddisgyblion yn is na’r disgwyl.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy’n gosod lles a chynnydd disgyblion fel blaenoriaeth. Mae'n cael ei gefnogi'n effeithiol gan staff a llywodraethwyr brwdfrydig, sy'n cydweithio'n bwrpasol i wella'r ddarpariaeth i'r disgyblion. O ganlyniad, mae bron bob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Parhau i wella presenoldeb disgyblion

A2. Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn unol â’u gallu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae Ysgol Rhiwlas yn gymuned hapus a gofalgar lle mae'r staff yn cynllunio'n fwriadus er mwyn darparu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu a phrofiad. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ddysgu am hanes a threftadaeth eu hardal leol mewn ystod o weithgareddau addysgiadol difyr. Er enghraifft, fel rhan o'r thema 'Mynyddoedd ac Afonydd', mae'r disgyblion hŷn yn dysgu am rhinweddau naturiol eu bro, gan gynnwys yr afonydd lleol a'u pwysigrwydd i fywyd gwyllt yr ardal. Mae perthynas waith gadarnhaol rhwng y staff a'r disgyblion yn cyfrannu at amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol, gan alluogi disgyblion i ddatblygu hyder a mwynhad yn eu dysgu.

### Ciplun: Defnydd hynod effeithiol y staff o'r ardaloedd dysgu deniadol ac ysgogol

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd allanol i wella profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r disgyblion ieuengaf yn elwa o gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio'r warchodfa natur, gan ddysgu am wahanol fathau o adar a'u bwydo'n rheolaidd. Mae'r disgyblion hynaf yn gyfrifol am fagu gwenyn mêl yr ysgol, gan dderbyn hyfforddiant i drin y cwch gwenyn a chynaeafu mêl i'w werthu yn y gymuned leol. Mae'r dulliau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad eu medrau cydweithio, medrau cymdeithasol a dealltwriaeth y disgyblion o'r byd naturiol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymfalchïo yn eu cyfraniadau at fywyd yr ysgol ac yn datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'u hamgylchedd naturiol.

Mae athrawon yn cynllunio tasgau dysgu difyr a diddorol sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol ar gael i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a cherddorol yn effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd ag incwm isel wrth iddynt ddatblygu ystod o fedrau yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn gelfydd wrth iddynt ysgrifennu'n estynedig i wahanol bwrpasau ar draws y cwricwlwm. Er hyn, nid yw'r lefel her a ddarperir bob amser yn ymateb yn briodol i anghenion bob disgybl.

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r pwyslais ar ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg. Mae'r staff yn fodelau iaith hynod effeithiol ac yn cymryd pob cyfle i annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol wrth gydweithio ac wrth chwarae. O ganlyniad, mae mwyafrif y disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amrywiaeth o gyd-destunau, gan feithrin rhuglder sy'n eu galluogi i fynegi'u hunain yn glir ac yn fanwl.

Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau asesu i adnabod cynnydd disgyblion a nodi camau nesaf eu datblygiad. Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yn rhoi arweiniad clir i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith. Mae hyn yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn y broses o werthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r hyn maent yn ei gyflawni'n dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith ymhellach.

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol sy'n rhoi blaenoriaeth i les disgyblion a staff. Mae'r berthynas waith rhwng y staff a'r disgyblion yn gadarn ac yn gefnogol, gyda'r staff yn dangos dealltwriaeth fanwl o anghenion unigol y disgyblion. Mae'r gweithdrefnau diogelu yn gadarn, ac mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus yn yr ysgol. Mae'r staff yn defnyddio dulliau rheoli ymddygiad effeithiol er mwyn ymateb yn gadarnhaol i unrhyw achos o aflonyddwch neu ymddygiad heriol, gan gynnwys defnydd effeithiol o'r ystafelloedd tawelu a rhaglenni datblygu emosiynol. O fewn sesiynau torfol, mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion ddysgu am foesau a gwerthoedd pwysig fel caredigrwydd a pharch at eraill. Mae hyn yn effeithiol wrth ddwysáu dealltwriaeth y disgyblion o'r angen i drin pawb a phopeth mewn cymdeithas â pharch. At ei gilydd, mae hyn yn cefnogi ymddygiad cadarnhaol bron bob disgybl. Maent yn dangos parch a chwrteisi at eu cyfoedion a staff wrth weithio o fewn eu hardaloedd dysgu ac wrth gydchwarae yn ystod amseroedd egwyl. Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer sicrhau presenoldeb disgyblion yn gadarn. Fodd bynnag, mae presenoldeb gormod o ddisgyblion yn is na'r disgwyliedig.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n gosod lles disgyblion a chymuned yr ysgol fel blaenoriaeth. Mae'r staff a'r llywodraethwyr yn rhannu'r weledigaeth hon ac yn cydweithio'n llwyddiannus i sicrhau bod pob disgybl yn cael addysg o ansawdd uchel. Mae systemau hunanwerthuso'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn cynnwys staff a llywodraethwyr yn bwrpasol wrth adnabod cryfderdau'r ysgol a'r meysydd ii'w gwella. Mae arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n cysylltu'n bwrpasol â blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn wedi gwella safonau'r addysgu a'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion. Mae gan yr ysgol berthynas gynhyrchiol â rhieni a'r gymuned ehangach. Mae'r staff yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i rieni ymweld â'r ysgol yn gyson er mwyn gwella eu dealltwriaeth o fywyd a gwaith yr ysgol a'r ddarpariaeth a gynigir i'w plant. Mae staff yn manteisio i'r eithaf ar y berthynas effeithiol rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y **caiff** ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/04/2025